

Bwletin Awdurdod S4C - Chwefror 2000

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes yr Awdurdod yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Trafodwyd y materion canlynol:

Cytundeb Masnachol rhwng SDN ac ONrequest

Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo ynghynt y gallai S4C, trwy ei bartneriaeth gydag United News and Media ac NTL yn SDN Cyfyngedig, ymuno â chytundeb gydag ONrequest i ddarparu teledu talu-wrth-wyllo ymhob rhan o'r Deyrnas Gyfunol. Mae hyn yn bosibl oherwydd llwyddiant blaenorol S4C wrth gynnig am hanner y gofod digidol ar Multiplex A. Derbyniodd yr Awdurdod gyda bendith delerau'r cytundeb 24 mlynedd oedd erbyn hyn wedi cael ei gwblhau. Mae'r buddsoddiad yn rhan o strategaeth S4C i ychwanegu at ei arian cyhoeddus trwy godi symiau sylweddol o incwm masnachol, o dan y grymoedd a roddwyd iddo gan y Senedd yn Neddf Darlledu 1996. Y bwriad yw defnyddio'r incwm hwn i gynnal a gwella ei wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Drwy'r cytundeb bydd S4C yn defnyddio peth o'i gapasiti digidol ychwanegol i barhau i ddarlledu'n fyw drafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar S4C2, a bydd yn gallu ymestyn hyn pe bai'r Cynulliad yn cyfarfod ar ddyddiau ychwanegol. Hefyd, gan fod cywasgu digidol yn golygu y gellir darparu mwy o wasanaethau ar yr un gofod digidol, bydd gan S4C y dewis o ymestyn a datblygu ei wasanaethau ymhellach fyth.

Trefniadau Adolygu ar gyfer Systemau Personel a Systemau Eraill

Bu'r Awdurdod yn ystyried a ddylai sefydlu pwyllgor i arolygu penodiadau uwch aelodau o'r staff ac amodau a thelerau cyflogaeth. Fel gyda phob mater arall yn ymwneud ag arolygu a monitro, byddai'r cyfrifoldeb eithaf yn parhau gyda'r Awdurdod. Fodd bynnag, gofynnwyd a fyddai'n hwyluso gwaith yr Awdurdod pe bai grwp bach o aelodau yn cymryd cyfrifoldeb penodol am y maes gwaith arbennig hwn, fel sy'n digwydd eisoes ar gyfer materion eraill gan Bwyllgorau Archwilio a Chwynion yr Awdurdod.

Nododd yr Awdurdod ei bod erbyn hyn yn arfer gorau cydnabyddedig i gael pwyllgor cyflogau ond penderfynodd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o ehangu maes llafur pwyllgor o'r fath i gynnwys systemau personel yn gyffredinol. Penderfynodd hefyd y dylid rhoi sylw pellach i berthynas gwaith pwyllgor o'r fath gyda'r Pwyllgor Archwilio. Cytunodd y dylai ystyried y mater hwn a chwestiynau eraill ynghylch arolygaeth a gwaith monitro'r Awdurdod o systemau rheoli yng nghyd destun trafodaeth ar Adroddiad Turnbull ar lywodraethu corfforaethol. Cynhelir y drafodaeth honno yn ei gyfarfod nesaf.

Coleg Digidol

Fel rhan o'i raglen barhaus o gyflwyniadau a thrafodaethau ar y materion allweddol sy'n wynebu S4C a byd darlledu yn gyffredinol wrth iddo ddatblygu ei strategaeth gorfforaethol, derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan Elen Rhys o Goleg Digidol Cymru.

Mae'r Coleg Digidol yn creu partneriaeth gyda cholegau addysg bellach ac uwch, y cynghorau hyfforddiant a menter, cyflogwyr, darlledwyr ac eraill, gan gynnwys NTL, i ddefnyddio y technolegau digidol newydd, (gan gynnwys teledu a'r rhyngwrwyd,) i ddarparu cyfleoedd newydd, mwy hygyrch ar gyfer dysgu gydol oes ymhob rhan o Gymru. Mae'r Awdurdod wedi cefnogi'r cynllun ar gyfer y fenter o'r cychwyn cyntaf, menter y mae'n ei hystyried yn gyfraniad unigryw y gall S4C, gydag eraill, ei wneud i helpu sicrhau Cymru ffynianus a llwyddiannus. Roedd yn falch o ail-ddatgan ymrwymiad S4C i ddarparu gofod darlledu digidol ar gyfer y Coleg Digidol. Roedd hefyd yn falch y bu modd darparu arian eto eleni i helpu sefydlu'r Coleg Digidol. Croesawodd yr Awdurdod yr amrywiaeth eang o bartneriaid oedd yn awyddus i weithio fel rhan o'r fenter. Croesawodd hefyd lwyddiant nid bychan y Coleg Digidol i ddenu symiau sylweddol o arian Ewropeaidd i ddatblygu'r meddalwedd angenrheidiol a'i arbrofi yn ystod y misoedd nesaf. Gwelodd hynny fel cydnabyddiaeth pwysig o botensial y Coleg Digidol i ddatblygu'n fodel ar gyfer cyflwyno dysgu o hirbell mewn ffyrdd cyffrous, newydd a hygyrch ar draws y Deyrnas Gyfunol, Ewrop a thu hwnt. Edrycha'r Awdurdod ymlaen at weld y Coleg Digidol yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ddiweddarach eleni.

Rhaglenni Plant

Croesawodd yr Awdurdod hefyd gyflwyniad gan Olygydd Comisiynu S4C ar gyfer Rhaglenni Plant, Meirion Davies. Ail-ddatganodd yr Awdurdod pa mor bwysig y mae'n ystyried rhaglenni plant, nid yn unig o ran eu gwerth eu hunain i blant a'u rhieni trwy Gymru benbaladr, ond hefyd fel rhan hollbwysig o'r ymdrechion i adeiladu cynulleidfaoedd newydd ar gyfer rhaglenni Cymraeg i'r dyfodol. Roedd yn cydnabod yr her enfawr o ddarlledu rhaglenni Cymraeg o safon i blant a allai gystadlu'n llwyddiannus gyda'r gystadleuaeth enfawr a chynyddol oddi wrth deledu digidol, y rhyngwrwyd a gemau cyfrifiadurol. Mae'n ystyried hynny fel her nid yn unig i S4C fel darlledydd ond hefyd i ddiwylliant a iaith unigryw Cymru, gan gofio hefyd y gystadleuaeth ddi-ddiwedd o du rhaglenni Americanaidd.

Croesawodd felly boblogrwydd parhaus rhaglenni plant S4C a'r cyfresi newydd o raglenni a gomisiynwyd ar gyfer 2000 a 2001. Er gwaethaf maint ac ehangder y gystadleuaeth a'r her, dangosai llwyddiant diweddar Tecwyn y Tractor i ennill BAFTA, am y rhaglen orau ar gyfer plant cyn oedran ysgol yn y Deyrnas Gyfunol, fod S4C yn ddigon abl i gystadlu gyda'r gorau.

Materion Eraill

Bu'r Awdurdod hefyd yn ystyried adroddiadau rheolaidd ar:

- berfformiad rhaglenni
- ymchwil cynulleidfa
- sefyllfa ariannol S4C

Cynhwysir asesiad yr Awdurdod o berfformiad rhaglenni a chanlyniadau'r ymchwil cynulleidfa a gynhelid yn 1999 yn Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod, y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Mehefin. Cyhoeddir cyfrifon blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 1999 ar yr un pryd.

Newydd ar y Safle We Hwn

Efallai yr hoffai darllenwyr wybod fod disgrifiad manwl o rôl yr Awdurdod, yn ogystal â'r Còd Ymarfer a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, yn awr ar gael ar y safle we hwn.

R4W7